# IS-BWYLLGOR CRAFFU HAMDDEN A DIWYLLIANT

**(Committee Rooms A/B - Neath Civic Centre)**

**Aelodau sy'n Bresennol:** **Dydd Iau, 5 Rhagfyr 2019**

| | |
|---|---|
| **Cadeirydd:** | **Cynghorydd S.H.Reynolds** |
| **Is-gadeirydd:** | **Cynghorydd R.Mizen** |
| **Cynghorwyr**: | S.Miller, S.Renkes, J.Hale ac D.Whitelock |
| **Swyddogion sy'n Bresennol:** | P.Walker, C.Davies, W.John, J.Woodman-Ralph, M. Wynne and cynrychiolwyr o Celtic Leisure |
| **Gwahodd:** | C.Clement-Williams |

1. **DERBYN UNRHYW DDATGANIADAU O FUDDIANT GAN AELODAU**

Gwnaeth yr aelod canlynol ddatganiad o fudd ar ddechrau'r cyfarfod.

| | |
|---|---|
| W John, Llyfrgellydd Sir | Parthed: Adroddiad Blynyddol Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru am ei fod yn mynd i gyfarfodydd Grŵp Cyfeirio Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru. |

2. **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 5 Medi 2019 yn gofnod cywir.

3. **ADRODDIAD CYNNYDD CYNLLUN BUSNES PARC GWLEDIG MARGAM**

Derbyniodd y Pwyllgor wybodaeth am y cynnydd a wnaed hyd yn hyn ar gyflwyno cynllun busnes Parc Gwledig Margam fel y nodwyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

Mae'r cynnydd wedi parhau ac mae incwm y parc yn cynyddu'n araf. Roedd gwaith yn parhau i archwilio cyfleoedd masnachol i greu incwm a fyddai'n cyfrannu tuag at gynnal a chadw'r parc.

Nodwyd hefyd fod yr Orendy wedi dod yn ail yng nghategori'r lleoliad gorau i briodasau yng Ngwobrau Twristiaeth Bae Abertawe, a bod Parc Gwledig Margam wedi ennill categori'r Atyniad Mawr Gorau.

Parhaodd y drafodaeth ynghylch cynlluniau ar gyfer y parc yn y dyfodol, yr ardaloedd y mae angen eu hadnewyddu a'r cyfleoedd i ddod â mentrau newydd i'r parc. Cyflwynir cais am arian ar gyfer gwelliannau i'r castell fel rhan o gyfleoedd busnes newydd.

Clywodd yr aelodau fod nifer o'r mentrau newydd a amlygwyd heddiw ac yn flaenorol wedi dod o staff y parc yn ystod eu sesiynau adborth rheolaidd.

Fel ateb i gwestiynau'r aelodau, esboniwyd bod y llwybr Luminate Wales yn y parc wedi bod yn llwyddiannus iawn ac yr ystyriwyd a lliniarwyd unrhyw effaith ar yr amgylchedd.

Roedd yr aelodau'n falch o'r cynnydd a wnaed a gofynnon nhw a fyddai modd mynegi'u gwerthfawrogiad i holl aelodau staff Parc Margam am eu gwaith caled.

Yn dilyn craffu, cytunwyd nodi'r adroddiad.

4. **ADRODDIAD BLYNYDDOL SAFONAU LLYFRGELLOEDD CYHOEDDUS CYMRU 2018/19**

Derbyniodd yr aelodau Adroddiad Asesiad Blynyddol Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru 2018-19 fel a nodwyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

Amlygwyd bod y gwasanaeth wedi gwella o'i gymharu â'r llynedd wrth iddo lwyddo i gyflawni 7 o'r 10 safon.

Cafwyd trafodaeth ynghylch a oes cysondeb yn y data a gasglwyd ac a yw'r model a ddefnyddir ar gyfer darpariaeth gwasanaethau llyfrgelloedd yr un peth ar draws Cymru. Esboniodd y swyddogion fod amrywiaeth o ffyrdd y mae cynghorau ar draws Cymru'n darparu gwasanaethau llyfrgell, sy'n golygu nad yw'r data'n cael ei gasglu'n gyson.

Nid yw'r 7 llyfrgell cymunedol sy'n derbyn cefnogaeth gan y gwasanaeth llyfrgelloedd yn cael eu cynnwys yn yr ystadegau, ond byddai perfformiad y gwasanaeth yn cynyddu pe byddent yn cael eu cynnwys.

Gofynnodd aelodau'r pwyllgor a fyddai modd mynegi eu gwerthfawrogiad i staff y llyfrgelloedd am y gwasanaeth gwych y maent yn ei ddarparu.

Yn dilyn craffu, roedd y pwyllgor yn gefnogol o'r cynigion i'w hystyried gan Fwrdd y Cabinet.

## 5. DATA RHEOLI PERFFORMIAD CHWARTEROL 2019-2020 - PERFFORMIAD CHWARTER 1 (1 EBRILL 2019 - 30 MEDI 2019)

Derbyniodd aelodau wybodaeth am Ddata Rheoli Perfformiad Chwarterol 2019-2020 - Perfformiad Chwarter 1 (1 Ebrill - 30 Mehefin 2019) fel y nodwyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

Roedd yr aelodau'n hapus â'r gwybodaeth ystadegol yn yr adroddiad a chytunwyd nad oedd angen craffu ymhellach.

Yn dilyn craffu, cytunwyd nodi'r adroddiad.

## 6. BLAENRAGLEN WAITH CRAFFU 2019/20

Nodi'r Blaenraglen Waith

## 7. BLAENRAGLEN WAITH BWRDD ADDYSG, SGILIAU A DIWYLLIANT Y CABINET AR GYFER 2019/20.

Nodi'r Blaenraglen Waith

## 8. MYNEDIAD I GYFARFODYDD

**PENDERFYNWYD:** Gwahardd y cyhoedd yn unol ag Adran 100A (4) a (5) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 o'r eitemau busnes canlynol a oedd yn cynnwys datganiadau posib o wybodaeth eithriedig, fel a ddiffinnir ym Mharagraff 14 ac Adran 4 o Atodlen 12A y Ddeddf uchod.

## 9. ADOLYGIAD PERFFORMIAD CHWE MISOL HAMDDEN CELTIC 2019-20 (YN EITHRIEDIG DAN BARAGRAPH 14)

Derbyniodd y pwyllgor gyflwyniad ar Adolygiad Perfformiad Chwe Misol Hamdden Celtic 2019-2020 ac Adolygiad Perfformiad Hamdden Celtic 2018-2019 fel y nodwyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

Cafwyd trafodaeth ynghylch y data a chynlluniau Hamdden Celtic ar gyfer datblygu yn y dyfodol. Byddai'r wybodaeth hon yn cael ei rhannu â'r Pwyllgor Craffu Addysg, Sgiliau a Hamdden yn y cyfarfod nesaf.

Trafodwyd menter nofio am ddim Llywodraeth Cymru ac effaith y newid hwn.

Diolchodd y pwyllgor i Hamdden Celtic am yr wybodaeth a'r cyflwyniad.

Yn dilyn craffu, cytunwyd nodi'r adroddiad.

**CADEIRYDD**